THEATR CYMRU

## Safonau'r Iaith Gymraeg - Adroddiad Blynyddol 2024-25

Theatr Cymru[1] yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i'r holl rydym yn ei wneud fel cwmni, a hybu a datblygu'r celfyddydau trwy gyfrwng y Gymraeg yw'n prif hamcan fel elusen.

Mae'r cwmni yn gweithredu yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae holl gyflogeion y cwmni yn rhugl yn y Gymraeg.

Rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025, parhaodd Theatr Cymru i gynnal y 168 Safon sydd yn berthnasol i'w gweithrediad a'i gwasanaeth. Mae'r cwmni yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chyflawni'r gweithgaredd canlynol yn benodol:

**Personél**

Cymraeg yw prif iaith y cwmni, a'r iaith weithredol yn fewnol, ac felly mae pob aelod o'r staff craidd yn siarad ac yn ysgrifennu Cymraeg yn rhugl. Fe wnaeth y cwmni gyflogi 15 aelod yn ystod 2024/25.

Ni hysbysebwyd unrhyw swyddi yn ystod 2024/25.

Cyflogwyd 147 o weithwyr llawrydd yn ystod y cyfnod, yn cynnwys amrywiaeth o ddisgyblaethau, o artistiaid i rheolwyr llwyfan, o actorion i ddylunwyr, a mwy. O'r 147, roedd 118 yn nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg (80% o'r cyfanswm) a 2 yn nodi eu bod yn dysgu Cymraeg.

Mae Theatr Cymru yn parhau i gydweithio gyda Cyngor Celfyddydau Cymru i annog gweithwyr llawrydd i fanteisio ar gyrsiau dysgu Cymraeg a chynnig cyfleoedd gwaith fel dilyniant i'r rhai sy'n mynychu'r cyrsiau.

Mae holl ymddiriedolwyr Theatr Cymru yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

**Hyfforddiant**

- Cynigiwyd cyrsiau gloywi iaith i aelodau staff sy'n dymuno cefnogaeth ychwanegol.
- Ni wnaeth unrhyw aelod o staff fanteisio ar y cynnig hwn yn ystod 2024/25.

**Gweinyddiaeth**

- Mae holl bolisïau, ffurflenni a chanllawiau Theatr Cymru, gan gynnwys y Llawlyfr Staff, ar gael yn y Gymraeg
- Mae pob arwydd cyhoeddus ar gyfer cynyrchiadau Theatr Cymru yn ddwyieithog

[1] Theatr Cymru yw enw masnachu Theatr Genedlaethol Cymru

- Cyhoeddir y Cyfrifon Statudol blynyddol yn y Gymraeg a'u darparu i'r cyhoedd drwy wefan y Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

**Cyfathrebu**

- Caiff holl waith cyfathrebu y cwmni (gan gynnwys taflenni hyrwyddo, rhaglenni sioeau, posteri ac e-byst) ei ddarparu yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn ail.
- Mae gwefan Theatr Cymru yn hollol ddwyieithog.
- Caiff negeseuon eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol y cwmni (sef Facebook, X ac Instagram) yn Gymraeg yn gyntaf, a'r Saesneg yn ail.
- Mae capsiynau dwyieithog (gyda'r Gymraeg yn gyntaf a'r Saesneg yn dilyn) ar gael ar bob fideo hyrwyddo gan y cwmni.
- Anfonir datganiadau i'r wasg yn y Gymraeg yn gyntaf, wedi eu dilyn gan y Saesneg.
- Mae Theatr Cymru yn defnyddio gwasanaethau cyfieithwyr a phrawf-ddarllenwyr Cymraeg llawrydd yn gyson i sicrhau cywirdeb a safon yn ein gwaith cyfathrebu.

**Cwynion/Ymholiadau**

- Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynglŷn â chyflenwad Safonau'r Iaith Gymraeg
- Mae Theatr Cymru yn croesawu adborth ac ymholiadau ynglŷn â'r iaith Gymraeg.